# EISTEDDFOD PWLLGLAS

**yn Neuadd y Pentref Pwllglas, ger Rhuthun, LL15 2PB**

# DYDD SADWRN, MAI 11eg 2024

## Amser dechrau:

## Prynhawn: 12:00 o'r gloch Hwyr: 6:00 y.h

## Beirniaid:

**Cerdd, Cerdd Dant a Chyfansoddi Tôn**:

Mrs Bethan Antur, Llwyn Celyn, Llanuwchllyn, Y Bala, LL23 7TW

**Llefaru, Llên a Barddoniaeth:**

Mrs Haf Evans, Crud yr Awel, Ochr y Bryn, Henllan, LL16 5AT

**Arlunio a Gwaith Llaw:**

Mrs Nan Lloyd, Rhuthun

**Coginio a Gosod Blodau:**

Mrs Sioned Jones, Cwmtirmynach

## Cyfeilyddion:

Cyfarfod y prynhawn: Sioned Williams, Pwllglas

Cyfarfod yr hwyr: Ann Edwards, Bodeirian, Prion, Dinbych, LL16 4SA

## Arweinyddion:

Awen Williams, Menai Williams, Hywel Roberts, Tomos Williams

## Pris Mynediad:

Prynhawn: Oedolion £5.00 Plant £1

Hwyr: Oedolion £5.00 Plant £1

Darperir bwyd am bris rhesymol

# Swyddogion y Pwyllgor

**Llywydd:** Susan Edwards, Ty Brith, Pandy'r Capel, Corwen

**Ysgrifennydd:** Hawys Roberts, 89 Parc y Dre, Rhuthun,
Sir Ddinbych, LL15 1PG

07507 842413 / eisteddfodpwllglas@gmail.com

**Trysorydd:** Richard Roberts

**Is – drysorydd:** Glain Jones

**Prif Stiward:** Berwyn Dolben

**Noder: Bydd sesiwn y prynhawn yn dechrau am 12:00 o'r gloch, felly'r gobaith yw y bydd cyfarfod yr hwyr yn cychwyn yn brydlon am 6 o'r gloch.**

**Cydnabyddir cefnogaeth i'r Eisteddfod gan Grŵp Cynefin a Read Construction.**

# Cyfarfod y Prynhawn (i ddechrau am 12 o'r gloch)

## CERDDORIAETH AC OFFERYNNOL

| | | |
|---|---|---|
| **1. Unawd dosbarth derbyn ac iau** | Hunanddewisiad | **£6.00 i'w rannu** |
| **2. Unawd Blwyddyn 2 ac iau** | Breuddwydio (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **3. Unawd Blwyddyn 3 a 4** | Helfa'r Hydref (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **4. Unawd Blwyddyn 5 a 6** | Dy Enw Di (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **5. Cerdd dant Blwyddyn 2 ac iau** | Ianto'r Cantor (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **6. Cerdd dant Blwyddyn 3 a 4** | Eisteddfod yr Urdd (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **7. Cerdd dant Blwyddyn 5 a 6** | Cân y Morfil (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **8. Unawd piano dan 12 oed** | Un darn o ddewisiad - *Tlws Blynyddol Mrs Gwenda Jones, Dinbych* | **£10.00 i'w rannu** |
| **9. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd (arwahan i'r piano) dan 12 oed** | Un darn o ddewisiad (hyd at 4 munud) | **£10.00 i'w rannu** |
| **10. Unawd Alaw Werin dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£10.00 i'w rannu** |
| **11. Deuawd dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£8.00, £6.00, £4.00** |
| **12. Parti Unsain neu ddeulais dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£20.00 i'w rannu** |

## LLEFARU

| | | |
|---|---|---|
| **13. Llefaru dosbarth derbyn ac iau** | Hunanddewisiad | **£6.00 i'w rannu** |
| **14. Llefaru Blwyddyn 2 ac iau** | Esgidiau Newydd (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **15. Llefaru i ddysgwyr Blwyddyn 2 ac iau** | Dw i eisiau (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **16. Llefaru Blwyddyn 3 a 4** | P'un ddaeth gynta '? (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **17. Llefaru i ddysgwyr Blwyddyn 3 a 4** | Cadw-mi-gei (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **18. Llefaru Blwyddyn 5 a 6** | Y Ras (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **19. Llefaru i ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6** | Siopa (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **20. Parti llefaru dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£20.00 i'w rannu** |

## LLENYDDIAETH (RHYDDIAITH)

| | | |
|---|---|---|
| **21. Blwyddyn 2 ac iau** | 5 brawddeg a llun o 'Fy hoff degan' | **£7.00 i'w rannu** |
| **22. Blwyddyn 3 a 4** | Trysor | **£8.00 i'w rannu** |
| **23. Blwyddyn 5 a 6** | Antur Fawr | **£10.00 i'w rannu** |

## ARLUNIO

| | | |
|---|---|---|
| **24. 3 oed ac iau** | Wyneb hapus | **£5.00 i'w rannu** |
| **25. Meithrin a Derbyn** | Pili Pala | **£5.00 i'w rannu** |
| **26. Blwyddyn 1 a 2** | Unrhyw aderyn | **£7.00 i'w rannu** |
| **27. Blwyddyn 3 a 4** | Unrhyw adeilad (arwahan i dŷ) | **£8.00 i'w rannu** |
| **28. Blwyddyn 5 a 6** | Dylunio poster yn hysbysebu'r Gemau Olympaidd (Ym Mharis) | **£10.00 i'w rannu** |

## GWAITH LLAW

| | | |
|---|---|---|
| **29. 3 oed ac iau** | Llun yn defnyddio eich llaw | **£5.00 i'w rannu** |
| **30. Meithrin a Derbyn** | Unrhyw beth allan o blat papur | **£5.00 i'w rannu** |
| **31. Blwyddyn 1 a 2** | Coron | **£7.00 i'w rannu** |
| **32. Blwyddyn 3 a 4** | Eitem yn defnyddio potel blastig | **£8.00 i'w rannu** |
| **33. Blwyddyn 5 a 6** | Creu medal i'r gemau Olympaidd | **£10.00 i'w rannu** |

## COGINIO

| | | |
|---|---|---|
| **34. Derbyn ac iau** | Addurno 4 cracer sawrus gyda chynhwysion llysieuol | **£5.00 i'w rannu** |
| **35. Blwyddyn 1 a 2** | Brechdan agored wedi ei addurno | **£7.00 i'w rannu** |
| **36. Blwyddyn 3 a 4** | 4 cacen pili pala | **£8.00 i'w rannu** |
| **37. Blwyddyn 5 a 6** | Bocs bwyd iach | **£10.00 i'w rannu** |

## GOSOD BLODAU

| | | |
|---|---|---|
| **38. Gosod blodau 16 oed ac iau** | Gosodiad mewn tebot | **£10.00 i'w rannu** |

# Cyfarfod yr hwyr **( i ddechrau am 6:00 yr hwyr)**

## CERDDORIAETH AC OFFERYNNOL

| | | |
|---|---|---|
| **1. Unawd Blwyddyn 7, 8, 9 a 10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **2. Unawd dan 19 oed** | Hunanddewisiad | **1af £20 2il £15 3ydd £10** |
| **3. Unawd 19 – 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **4. Y Brif Unawd** | Hunanddewisiad *(cystadleuwyr i anfon copi / cysylltu gyda'r cyfeilydd erbyn Ebrill 27 2024)* | **1af £50 2il £30 3ydd £20** |
| **5. Unawd o Sioe Gerdd dan 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **6. Unawd dros 50 oed** | Hunanddewisiad - *Tlws Blynyddol er cof am John a Ceri Owen, Hafod y Gân* | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **7. Canu Emyn agored** | Unrhyw Emyn | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **8. Unawd Cerdd dant Blwyddyn 7, 8,9 a 10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **9. Unawd Cerdd dant dan 19 oed** | Hunanddewisiad | **1af £20 2il £15 3ydd £10** |
| **10. Unawd Cerdd dant 19 – 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **11. Unawd Alaw Werin 7,8,9 a 10** | Hunanddewisiad | **£1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **12. Unawd Alaw Werin dros 15 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **13. Unawd Wreiddiol Gymraeg** | Hunanddewisiad *(cystadleuwyr i anfon copi / cysylltu gyda'r cyfeilydd erbyn Ebrill 27 2024)* | **1af £30 2il £25 3ydd £20** |
| **14. Parti Unsain / Deulais** *(Dim llai na 6 mewn nifer)* | Hunanddewsiad | **1af £40 2il £25 3ydd £15** |

| | | |
|---|---|---|
| **15. Cystadleuaeth Gorawl** *(Dim llai na 16 mewn nifer)* | Dau ddarn cyferbyniol - *Tlws yn rhodd gan Gôr Pwllglas* | **1af £100 2il £60 3ydd £40** |
| **16. Ensemble Lleisiol** *(Perfformiad dim mwy na 5 munud)* | Hunanddewisiad gyda chyfeiliant neu'n ddi-gyfeiliant. Geiriau Cymraeg. *(cystadleuwyr i anfon copi / cysylltu gyda'r cyfeilydd erbyn Ebrill 27 2024)* | **1af £30 2il £20 3ydd £15** |
| **17. Unawd Offerynnol 12-25 oed:** *(Dim mwy na 7 munud)* | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |

## LLEFARU

| | | |
|---|---|---|
| **18. Llefaru blwyddyn 7,8,9,10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **19. Llefaru i ddysgwyr blwyddyn 7,8,9,10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **20. Llefaru 15 – 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **21. Prif Adroddiad** | Hunanddewisiad | **1af £50 2il £30 3ydd £20** |

## ★ S'GEN TI DALENT? ★

| | | |
|---|---|---|
| **22. 'S'gen ti Dalent?'**<br><br>*Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw'r cystadleuwyr yn dymuno defnyddio props/offer/ offerynnau cerdd a.y.b.*<br><br>*Rhaid i'r perfformiad fod yn addas i gynulleidfa deuluol. Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall yn yr Eisteddfod.* | Cystadleuaeth unigryw yw hon er mwyn creu ychydig o adloniant.<br><br>**Agored i unigolion / grwpiau neu gorau.** Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, canu offeryn, gwneud triciau, unrhyw beth fydd yn difyrru'r gynulleidfa. | ***Dyfernir y wobr o £100 i'w rannu fel mae'r Beirniaid yn dymuno am y perfformiad/au sydd wedi eu diddanu orau.*** |

## LLENYDDIAETH

| | | |
|---|---|---|
| **23. Blwyddyn 7 a 8** | Chwarae'n troi'n chwerw | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **24. Blwyddyn 9 a 10** | Llyncu Mul | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **25. Blwyddyn 11 i 13** | Ymson tra'n cerdded ar hyd y traeth | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **26. Limrig: Gorffennwch y Limrig** | *'Mi syllais ar sgrîn y teledu,*<br>*Yn gegrwth, ni allwn i gredu…'* | **1af £8 2il £6 3ydd £4** |
| **27. Rhyddiaith agored** | Y Llais yn fy nghlust | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |
| **28. Barddoniaeth agored** | Y Brotest | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |
| **29. Barddoniaeth : Englyn Digrif** | Englyn i'r ffermwr | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |
| **30. Cyfansoddi Emyn – Thema :** | Emyn amserol i'r cyfnod | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |

# CYFANSODDI TÔN

| | | |
|---|---|---|
| **31. Cyfansoddi Tôn ar y geiriau canlynol** | Dydd Gŵyl Dewi | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |

1. Ac heddiw'n Fawrth y cyntaf,
yn sŵn a chwerthin plant,
daw'r Gwanwyn iach o'r gaeaf,
wrth gofio Dewi Sant.

2. Ei gofio am ein harwain,
i'r werin oll yn Dad,
am wneud y Pethau bychain,
fel nawdd sant hoff ein gwlad.

3. Fel esgob chweched ganrif,
fel seren yn y nen,
ar gof mewn cerdd ac ysgrif,
a hedd colomen wen.

4. Yn syml oedd ei fywyd,
bu'n arddel ffordd o fyw.
Cymuned iddo'n wynfyd,
a chariad at ein Duw.

5. Bydd dathlu yn ein canu
llefaru a cherdd dant.
wrth gofio nawdd sant Cymru
ein hannwyl Ddewi Sant.

*Dyfan Phillips*
*Enillydd Cyfansoddi Emyn 2023*

# ARLUNIO A GWAITH LLAW

| | | |
|---|---|---|
| **32. Blwyddyn 7 i 11 (Arlunio)** | Person enwog | **£8.00 i'w rannu** |
| **33. Blwyddyn 7 i 11 (Gwaith llaw)** | Llunio poster ar y cyfrifiadur yn hyrwyddo'r gemau Olympaidd | **£8.00 i'w rannu** |
| **34. Gwaith Llaw Agored** | Cerdyn ar gyfer priodas | **£10.00 i'w rannu** |
| **35. Ffotograffiaeth Agored** | Unrhyw olygfa | **£10.00 i'w rannu** |

# COGINIO A GOSOD BLODAU

| | | |
|---|---|---|
| **36. Gosod Blodau Agored** | Gosodiad yn defnyddio canwyll | **£10.00 i'w rannu** |
| **37. Coginio Agored** | Quiche | **£10.00 i'w rannu** |
| **38. Coginio Agored** | Cacen Foron (ryseit o'ch dewis) | **£10.00 i'w rannu** |

# AMODAU

| | |
|---|---|
| **1.** | Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod, a bydd hawl gan y Beirniaid i atal neu rannu'r wobr. |
| **2.** | Bydd hawl gan y Beirniaid i ychwanegu at y wobr, os bydd teilyngdod, i gystadleuwyr dan 16 oed. |
| **3.** | **Pob cystadleuydd i ofalu am gopi i'r Beirniad [a'r Cyfeilydd].** |
| **4.** | **Y cystadleuwyr ar y Brif Unawd, Unawd Wreiddiol Gymraeg a'r Unawd allan o Unrhyw Sioe Gerdd i gysylltu â'r Cyfeilydd (07833 973557) erbyn Ebrill 27 2024.** |
| **5.** | Os ceir unrhyw anhawster i gael copi ar gyfer unrhyw gystadleuaeth, cysyllter â'r ysgrifennydd. |
| **6.** | Caniateir i blant dan 16 oed ganu mewn unrhyw gyweirnod (heblaw yn y darnau gosod). |
| **7.** | Y Cyfansoddiadau mewn Llenyddiaeth, Barddoniaeth a Chyfansoddi Tôn i'w hanfon at y Beirniad [nid yr Ysgrifennydd] **erbyn Dydd Sadwrn, Ebrill 27ain 2024.** |
| **8.** | Cedwir hawlfraint ar y gwaith llenyddol gan yr Eisteddfod am flwyddyn. |
| **9.** | Y cynhyrchion yn yr adran Arlunio, Gwaith Llaw, Coginio a Gosod Blodau i'w dwyn i'r Neuadd **cyn 6.00 o'r gloch Nos Wener, Mai 10eg 2024.** |
| **10.** | Ar y cystadlaethau Llenyddiaeth, Arlunio, Gwaith Llaw, Coginio a Gosod Blodau Blwyddyn 11 ac iau, defnyddier enwau cywir (nid ffugenw), oedran a chyfeiriad e.e. Enw Ysgol. |
| **11.** | Dylai enw iawn pawb Blwyddyn 11 ac uwch yng nghystadlaethau a enwir yn amod 7 uchod fod yn llaw'r ysgrifennydd ynghyd â'r ffug enw, os na all y cystadleuydd fod yn bresennol, a dylai amgáu amlen wedi'i chyfeirio a'i stampio os dymunir cael y gwaith yn ôl. |
| **12.** | Dylai enwau [neu ffug enwau] cystadleuwyr fod **ynghlwm â'u gwaith** yn y cystadlaethau a enwir yn amodau 7 a 9 uchod. |
| **13.** | Mae pawb i fod yn gyfrifol am gael eu gwobrau ym mhob cystadleuaeth, [a'u heitemau yn 7 a 9 uchod]. |
| **14.** | Ni chaniateir i'r buddugol ar y Brif Unawd gystadlu ar yr Unawd Wreiddiol Gymraeg. |
| **15.** | Pob cystadleuydd i fod yn yr oedran priodol yn ôl rheolau Eisteddfod yr Urdd, a phob cystadleuydd i ddilyn unrhyw newidiadau a chywiriadau yn y darnau gosod fel yr amlinellwyd gan Eisteddfod yr Urdd. |
| **16.** | Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus. |
| **17.** | Unrhyw ddarnau hunan ddewisiad i fod yn yr iaith Gymraeg. |
| **18.** | Yng nghystadleuaeth Cyfansoddi Emyn, bydd yr Emyn buddugol yn cael ei gynnwys yn rhaglen Eisteddfod 2025, ar gyfer cystadleuaeth Cyfansoddi Tôn. |
| **20.** | **Byddwn yn tynnu lluniau yn ystod yr Eisteddfod a'u defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol. Os nad ydych eisiau i'ch llun gael ei gynnwys, mae'n bwysig hysbysu'r ysgrifennydd cyn i'r gystadleuaeth ddechrau o.g.y.dd.** |